y cwrs gweddi

Sesiwn 2:

# Addoliad

## Canllaw Astudio Grwpiau Bach

## 1. Cyflwynwch y sesiwn 5 munud

**Adnod allweddol - "Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw" - Mathew 6:9**

- Yn y sesiwn hon byddwn yn archwilio sut y gallwn fwynhau presenoldeb Duw mewn mawl ac addoliad.
- Dechreuwch y sesiwn trwy agor mewn gweddi.

## 2. Gwyliwch y Fideo 20 munud

**Darnau o'r Beibl** Actau 4:24-31

**Pwyntiau crynhoi**

- Dechreuwch trwy gydnabod mai Duw yw Duw.
- Mae addoli yn rhoi pethau yn ôl i bersbectif.
- Defnyddiwch P.R.A.Y :-

**Pause** – Oedi, **Rejoice** – Llawenhau, **Ask** – Gofyn, **Yield** - Ildio

## 3. Cwestiynau Trafod 20 munud

**C.** Beth oedd fwyaf defnyddiol neu fwyaf heriol yn y fideo i chi?

**C.** Paham y tybiwch ein bod fynychaf yn cysylltu gweddi â gofyn, yn hytrach nag â mawl ac addoliad?

**"Wrth orchymyn inni ei ogoneddu, y mae Duw yn ein gwahodd i'w fwynhau." – CS Lewis**

**C.** A ydych yn mwynhau treulio amser gyda Duw ?

Pa bryd y mae gweddi'n teimlo'n fwyaf pleserus ?

**C.** Dywed Pete fod gweddi yn ymwneud yn bennaf â pherthynas â Duw:

"Mae'n fater o berthynas nid cytundeb". **"It's relational, not transactional"**

Sut mae hyn yn newid eich persbectif o ddod at Dduw mewn gweddi?

**C.** Yn y darn o Lyfr yr Actau, rhoddodd yr eglwys fore eu hargyfwng eu hunain mewn persbectif trwy addoli.

Beth yw'r pethau ymarferol y gallech chi eu gwneud yr wythnos hon i feithrin agwedd o addoli yn eich trefn feunyddiol?

## 4. Gweithredu 15 munud

Ceisiwch feithrin ysbryd diolchgarwch a mawl trwy fyfyrio ar Salm 8.

Fel grŵp, darllenwch Salm 8 yn uchel gyda'ch gilydd.

Efallai yr hoffech chi ddirprwyo gwahanol adnodau i wahanol bobl, neu annog un person yn unig i'w darllen yn uchel.

Yna, cymerwch amser i **Oedi a Llawenhau**:

**Oedwch**: Cymerwch eiliad mewn distawrwydd a gwahoddwch yr Ysbryd Glân i'ch helpu i fyfyrio ar yr hyn rydych chi newydd ei ddarllen.

**Llawenhewch**: Anogwch aelodau'r grŵp i weddïo'n uchel weddïau o addoliad. Gwahoddwch bawb i fyfyrio ac i ddiolch i Dduw am un neu ddau beth yn eu bywydau. Efallai yr hoffent ddefnyddio'r Salm fel ysbrydoliaeth hefyd.

**Nodyn i'r arweinydd**
Os oes gennych amser ac mae'n teimlo ei fod yn briodol i'ch grŵp, efallai yr hoffech chi barhau â'r camau GWEDDI trwy ofyn a ildio.

Adnoddau'r Sied Offer: Addoliad

Mae'r rhain i'w cael yn **prayercourse.org/toolshed**

- “How to oray the Psalme” - Sut i weddïo’r Salmau
- “How to practise Christian meditation - ”Sut i ymarfer myfyrdod Cristnogol
- “How to pray creatively” - Sut i weddïo'n greadigol
- “How to pracise the Presence of God” - Sut i ymarfer Presenoldeb Duw